Dŵr Cymru
Welsh Water

Beth yw Gorlif Carthion Cyfun?

Mae'r rhan fwyaf o systemau carthffosiaeth Dŵr Cymru Welsh Water yn cynnwys **carthffosydd cyfun** sydd, yn ogystal â chario dŵr gwastraff o gartrefi a busnesau, yn cario **dŵr arwyneb** ffo o gwteri, draeniau a rhai ffyrdd.

Fel rheol, mae carthffosydd newydd yn **garthffosydd ar wahân** sydd wedi'u gwneud i gario carthion yn unig ac mae gan y dŵr arwyneb ei system ddraenio ei hunan.

Os ceir glaw trwm neu os bydd yn bwrw am amser hir, gall y llif mewn carthffos gyfun gynyddu'n sydyn. Os bydd gormod o lif ar gyfer y garthffos, caiff tipyn o **garthion storm** eu gollwng i afon neu i'r môr trwy **orlif carthion cyfun (CSO).**

Os yw CSO wedi'i gynllunio'n dda, mae'n gweithredu fel falf ollwng hanfodol. Mae'n sicrhau nad yw'r garthffos yn gorlenwi ac yn gorlifo i gartrefi ac ati neu i weithfeydd trin carthion. Weithiau, ceir system delemetri ar y CSO i roi gwybod i'r sawl sy'n gofalu amdano os yw'n gollwng y llif neu os oes nam ar yr offer a ddefnyddir i glirio'r sgrîn.

Fodd bynnag, nid yw llawer o hen CSOs wedi'u cynllunio na'u hadeiladu i safonau mor uchel â'r rhai diweddaraf. Dyma rai diffygion cyffredin a welir arnynt:

- Nid yw'r bibell yn ddigon mawr, ac felly mae'r CSO'n gollwng y carthion yn rhy aml
- Nid yw'r carthion yn cael eu sgrinio cyn eu gollwng
- Dim ond tyllau a wnaed yn waliau manols i gadw'r carthion rhag gorlifo yw rhai ohonynt.

CSO diffygiol

Trwy ein rhaglenni buddsoddi pum-mlynedd, rydym wedi gosod CSOs modern, sydd wedi'u cynllunio'n dda ac yn gweithio'n effeithiol, yn lle llawer o hen rai nad oedd yn gweithio'n iawn. Buom yn cydweithio'n agos â rheoleiddwyr a chyrff statudol wrth gynllunio er mwyn sicrhau ein bod yn gwario'r arian yn y mannau priodol.

Yn hytrach na gwella'r CSOs unigol gwaethaf, fe gytunwyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ganolbwyntio'n hymdrechion ar systemau carthffosiaeth cyfan er mwyn gwella ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd afonydd cyfan.

CSO eithaf newydd yn gweithio pan fydd yn bwrw glaw yn drwm/hir



Gwnaed y carthffosydd newydd o ddefnyddiau modern, maent yn fwy o faint, mae ganddynt siambrau newydd, llefydd storio newydd a system delemetri os oes angen. Rhoddwyd sgriniau 6mm yn y CSOs rhag i solidau gael eu gollwng i'r amgylchedd. Cafodd cynlluniau'r CSOs eu cymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i sicrhau y gellir cydymffurfio am gyfnod maith â'r safonau ar gyfer ansawdd dŵr afonydd.

Yn ystod cyfnod buddsoddi 5 mlynedd 1995 – 2000, buddsoddwyd £80m gan Ddŵr Cymru yn newid CSOs anfoddhaol ac yn adeiladu rhai newydd ar 450 o safleoedd. Rhwng 2000 a 2005, gwariwyd £270m arall yn gwneud gwaith ar 700 o safleoedd ac yn y cyfnod nesaf o bum mlynedd, 2005 – 2010, byddwn yn gwario £240m yn gweithio ar 450 o safleoedd eto.